Addysg Ddewisol yn y Cartref

Canllaw i Rieni / Gofalwyr

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cysylltwch ag: EHE@conwy.gov.uk

Mae Erthygl 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan hawl bob plentyn i dderbyn addysg.

Mae Erthygl 29 CCUPH yn datgan y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau bob plentyn i'r eithaf. Dylai hyn annog plant i barchu eu rhieni, a diwylliant eu hunain a diwylliant eraill.

Beth yw addysg ddewisol yn y cartref?

Addysg ddewisol yn y cartref yw term sy'n cael ei defnyddio i ddisgrifio pan fo rhiant/gofalwr yn addysgu eu plentyn yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol.

Mae dyletswydd ar y rhiant/gofalwr i sicrhau addysg llawn amser ac effeithiol ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol, un ai drwy anfon y plentyn i'r ysgol neu drwy ffyrdd eraill. Mae un o'r ffyrdd yw bod rhiant/gofalwr yn penderfynu addysgu yn y cartref.

Wedi'i gydbwyso yn erbyn y penderfyniad hwn, yw'r disgwyliad y gall awdurdodau lleol asesu addasrwydd yr addysg y mae'r rhiant/gofalwr yn ei darparu. Er mwyn i awdurdod lleol gynnal y swyddogaeth honno, nid yw'n afresymol i awdurdod lleol ofyn i riant/gofalwr am eu dull o weithio o ran yr addysg sy'n cael ei darparu.

Nid oes angen caniatâd yr awdurdod lleol arnoch i addysgu yn y cartref (oni bai bod eich plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol arbenigol).

Ai addysg ddewisol yn y cartref yw'r dewis cywir ar gyfer fy mhlentyn?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo Cymru sy'n fwy cyfartal drwy gefnogi system addysg gynhwysol a theg, lle mae pob plentyn yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau rhag addysg a chyfranogiad.

Mae penderfyniad a dewis addysg ar gyfer eich plentyn yn arwyddocaol, ac mae'n bwysig eich bod yn ystyried yr holl ffactorau allweddol sy'n rhan o hynny. Mae'n bwysig nodi, os ydych chi'n dewis addysgu eich plentyn yn y cartref, byddai'n golygu ymrwymiad sylweddol o'ch amser, egni ac arian.

Wrth ystyried ai addysg ddewisol yn y cartref yw'r dewis cywir ar gyfer eich plentyn, mae'n hollbwysig dewis y llwybr sy'n caniatáu i'ch plentyn gyflawni ei botensial, rŵan ac yn y dyfodol, gan gynnwys a fyddai eich plentyn yn dymuno sefyll arholiadau cyhoeddus megis TGAU. Mae'n bwysig ystyried cwestiynau fel y canlynol:

- Yw eich plentyn yn gadarnhaol am gael eu haddysgu yn y cartref?
- Ydych chi'n gallu darparu'r adnoddau angenrheidiol i gefnogi addysg eich plentyn?
- Oes gennych yr amser i gefnogi addysg llawn amser eich plentyn?
- A fydd modd i chi addysgu eich plentyn i'r lefel ofynnol os byddant eisiau sefyll arholiadau cyhoeddus (e.e. TGAU)?
- Oes gennych y gallu i helpu eich plentyn i ddysgu'n effeithiol?
- Oes gennych gefnogaeth addysgol arall ar gael os oes angen?
- Ydych chi o'r farn fel rhiant/gofalwr mai addysg yn y cartref yw'r dewis gorau ar gyfer eich plentyn?
- A fydd cyfleoedd i'ch plentyn ymgymryd mewn ymarfer corff?
- A fydd profiadau cymdeithasol gyda phlant eraill ar gael?

Hawliau a chyfrifoldebau y rhiant / gofalwr o ran addysg ddewisol yn y cartref

Mae gennych hawl i addysgu eich plentyn o'ch safbwynt athronyddol, ysbrydol neu grefyddol eich hun. Fodd bynnag, ni cheir hawl absoliwt i addysgu ddewisol yn y cartref. Mae hyn yn amodol arnoch chi'n bodloni gofynion Adran 7 Deddf Addysg 1996 sy'n nodi'r ddyletswydd ar riant/gofalwr

os yw plentyn yn cael addysg yn y cartref mae gan y rhiant/gofalwr rwymedigaeth i sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg llawn amser 'effeithlon' ac 'addas'. Mae'n rhaid i riant/gofalwr sy'n addysgu eu plentyn yn eu cartref baratoi i gymryd cyfrifoldeb llawn, a gall hyn olygu goblygiadau ariannol.

Bydd rhiant/gofalwr pob plentyn o'r oedran ysgol gorfodol yn achosi iddynt gael addysg llawn amser effeithlon sy'n addas:

- i'w oedran, dawn a gallu, ac
- unrhyw anghenion addysg ychwanegol a allai fod ganddynt drwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall.

Mae'n bwysig nodi, pan mae pum dysgwr neu fwy o oedran ysgol gorfodol, neu un dysgwr o'r un oedran sy'n derbyn gofal, ac mae ganddynt gynllun datblygu unigol, datganiad anghenion dysgu arbennig, neu gynllun Addysg, Iechyd neu Ofal, yn derbyn addysg llawn amser mewn un lleoliad nad yw'n ysgol a gynhelir, gall y trefniant hwn ddisgyn i gwmpas ysgol annibynnol. Mae'n rhaid i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw un sy'n sefydlu ysgol annibynnol heb ei chofrestru yn torri'r gyfraith ac yn agored i ddirwy a/neu garchariad.

Sut byddwch yn dangos tystiolaeth o ddarpariaeth addysg foddhaol?

Mae'n ddefnyddiol i riant/gofalwr ystyried darparu gwybodaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Cyfarfod gyda chynrychiolydd o dîm addysg yr awdurdod lleol
- Bod eich plentyn yn dangos rhywfaint o'i waith neu'n sôn am yr hyn mae'n ei ddysgu
- Lluniau neu ddogfennau a sganiwyd o unrhyw waith a gwblhawyd gan eich plentyn yr hoffech eu hamlygu
- Gwaith celf a luniwyd gan eich plentyn yr hoffech ei amlygu
- Unrhyw lyfrau lloffion sy'n arddangos addysg eich plentyn
- Cyraeddiadau cerddorol (e.e. tystysgrifau, graddau)
- Cyraeddiadau chwaraeon (e.e. tystysgrifau, dyfarniadau)
- Dyddiadur o weithgareddau addysg a gwblhawyd gan eich plentyn
- Defnydd cyfryngau digidol i arddangos addysg eich plentyn
- Adroddiad ysgrifenedig i amlygu addysg eich plentyn

Beth fyddai'n digwydd petai'r addysg ddewisol yn y cartref a ddarperir ddim yn addas?

Os nad yw'r awdurdod lleol wedi'u darbwyllo eich bod yn darparu addysg addas oherwydd diffyg gwybodaeth gan y rhiant/gofalwr, neu nid yw'r rhiant/gofalwr yn egluro nad yw'r addysg yn addas ac yn effeithlon, yna bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ymgysylltu gyda'r rhiant/gofalwr i ddarparu'r wybodaeth briodol.

Os bydd yr awdurdod lleol yn anfodlon nad yw'r addysg mae'r rhiant/gofalwr yn ei darparu yn addas ac yn effeithlon, bydd yn dilyn y proses ffurfiol a amlinellir mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn golygu, os yw pryderon yr awdurdod lleol yn parhau, a'i fod felly o'r farn bod yn rhaid i'r plentyn fynychu'r ysgol, rhaid iddo gyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol i'r rhiant/gofalwr. Mae gorchymyn mynychu'r ysgol yn orchymyn a roddir ar ran yr awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn gael ei gofrestru fel disgybl llawn amser yn yr ysgol a enwir yn y gorchymyn. Os ydych yn dymuno, cewch ddewis ysgol wahanol i'r un a enwir yn llythyr y gorchymyn mynychu'r ysgol. Fodd bynnag, rhaid i'r ysgol fod yn addas i ddiwallu anghenion y plentyn a rhaid iddi fod wedi cytuno i gynnig lle i'ch plentyn.

Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gael trefniadau i alluogi iddynt nodi plant yn yr ardal sydd o fewn oedran addysg orfodol ond:

- Nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, ac
- Nid ydynt yn derbyn addysg addas heblaw am mewn ysgol

Cyllid a chymorth

Mae'n rhaid i riant/gofalwr sy'n addysgu eu plentyn yn eu cartref baratoi i gymryd cyfrifoldeb llawn, a gall hyn olygu goblygiadau ariannol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y rhiant/gofalwr yn gyfrifol am:

- Costau llyfrau i gefnogi addysg
- Costau mynediad i adnoddau addysg ar-lein
- Costau ffiodd cyrsiau
- Costau sefyll arholiadau cyhoeddus (e.e. TGAU)

Sut i fynd ati i ddewis addysg ddewisol yn y cartref ar gyfer eich plentyn

Os yw eich plentyn yn yr ysgol, dylech ysgrifennu at y Pennaeth yn eu hysbysu o'ch bwriad i gymryd cyfrifoldeb o addysg eich plentyn a thynnu'r plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol. Bydd y Pennaeth yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol ar y cam hwn, ac yn cychwyn y broses o dynnu enw eich plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol. Mae'n bwysig nodi nad yw hysbysiad ar lafar o'ch bwriad i addysgu eich plentyn yn y cartref yn ddigonol; gallwch gael eich erlyn am absenoldeb eich plentyn o'r ysgol.

Os nad yw eich plentyn erioed wedi mynd i ysgol, nid oes angen rhoi gwybod. Fodd bynnag, argymhellwn yn gryf eich bod yn cysylltu â'r awdurdod lleol i roi gwybod iddynt eich bod yn addysgu eich plentyn yn y cartref. Bydd hyn yn caniatáu i'r awdurdod lleol gysylltu â chi a chynnig cefnogaeth.

Beth os oes gan fy mhlentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU) neu Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)?

Mae'r un weithdrefn yn berthnasol os oes gan eich plentyn CDU neu ddatganiad o AAA a'u bod yn mynychu ysgol prif ffrwd. Serch hynny, os ydi'ch plentyn yn mynychu ysgol arbenigol, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd gan yr awdurdod lleol cyn tynnu eich plentyn oddi ar y gofrestr. Bydd angen i chi ofyn i'r awdurdod lleol i ddiwygio datganiad eich plentyn neu adolygu eu CDU.

Oes cwricwlwm ar gyfer addysgu fy mhlentyn yn y cartref?

Nid oes rhaid i chi ddilyn Cwricwlwm i Gymru neu unrhyw gwricwlwm penodol na bodloni meini prawf ar gyfer nifer oriau'r addysg. Gall fod yn ganllaw defnyddio wrth gynllunio addysg eich plentyn os ydych chi'n eu haddysgu yn y cartref. Mae'r egwyddorion canlynol yn ddefnyddiol os ydych chi'n addysgu eich plentyn o'r cartref:

- Galluogwch eich plentyn i gasglu gwybodaeth newydd a dangos cynnydd yn unol â'u gallu i gynyddu dealltwriaeth a datblygu eu sgiliau yn y meysydd addysg a'r profiadau sy'n cael eu darparu
- Cynigwch gyfleoedd i feithrin sgiliau deallusol, corfforol a chreadigol eich plentyn, yn ogystal â'u gallu i feddwl a dysgu drostynt eu hunain
- Dangoswch y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol o'r meysydd addysg a'r profiad sy'n cael eu darparu
- Lluniwch fframwaith i fesur cynnydd eich plentyn yn rheolaidd a thrylwyr er mwyn gallu cynllunio eich darpariaeth addysg yn briodol

A fydd fy mhlentyn yn gallu mynd yn ôl i'r ysgol?

Gall eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol unrhyw bryd drwy gwblhau ffurflen derbyniadau i'r ysgol gan yr ysgol ddewisol. Sylwch, os oedd eich plentyn yn mynychu ysgol yn flaenorol, nid oes sicrwydd y bydd lle yn yr ysgol wreiddiol honno.